



David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd

15 Hydref 2019

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'ch llythyr dyddiedig 20 Medi 2019 yn gofyn am atebion i'r cwestiynau hynny na lwyddwyd i'w cyrraedd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 16 Medi 2019. Mae pethau wedi symud yn gyflym ers y cyfarfod hwnnw; mae dyfarniad hanesyddol Goruchaf Lys y DU bod penderfyniad y Prif Weinidog i atal Senedd y DU am bump wythnos yn anghyfreithlon ac yn ddi-rym wedi galluogi San Steffan i ailgychwyn ar ei gwaith.

Ddydd Iau 26 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, "Dyfodol Mwy Disglair i Gymru: Y rhesymau dros aros yn yr UE". Roedd y papur hwn, olynnydd i *Diogelu Dyfodol Cymru*, yn amlinellu'r dadansoddiad economaidd diweddaraf i ni ei gynnal, gyda ffocws arbennig ar effaith ymadael heb gytundeb ar 31 Hydref 2019.

Ar 2 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chynigion i newid y backstop yn y Cytundeb Ymadael. Diddorol fydd gweld ymateb Brwsel ac Iwerddon i'r cynigion hyn, er ei bod hi'n annhebygol y byddant yn sail i gytundeb newydd. Os ceir cytundeb, ac os bydd y cytundeb hwnnw'n cael cefnogaeth yn San Steffan, bydd angen i Lywodraeth y DU gyflwyno Bil Cytundeb Ymadael diwygiedig. Rydym wedi datgan yn glir y bydd y Bil hwn angen cydsyniad y Cynulliad.

Rydym yn disgwyl hefyd i Lywodraeth y DU fodloni gofynion cydsyniad mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth frys y bydd yn ei chyflwyno.

Ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, rydym yn cydnabod y posibilrwydd y bydd rhaid i Lywodraeth y DU gyflwyno Biliau a fydd angen symud yn gyflym iawn trwy broses graffu ddeddfwriaethol Senedd y DU. Mae'n glir bod rhai parchu Confensiwn Sewel; hyd yn oed pan fo angen i Filiau'r DU symud yn gyflym, mae angen cael cydsyniad y Cynulliad, hyd yn oed os yw'r amser craffu sydd gan bwyllgor yn cael ei gwthgi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YP.PrifWeinidog@llyw.cymru •
ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, rhaid cydnabod nad yw amserlenni Biliau'r DU o fewn awdurdodaeth Llywodraeth Cymru. Felly, nid oes modd i ni warantu y bydd y Cynulliad bob amser yn cael yr amser priodol i ystyried cydsynio i'r deddfwriaeth arfaethedig i'r graddau mae'n ymwneud â maes lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywydd i ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf priodol o gyflymu gweithdrefnau os bydd angen.

Y llynedd, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch natur Brexit, sut yn union y bydd y DU yn ymadael â'r UE a'n perthynas â'r UE a'r cyllid fydd ar gael i ni yn y dyfodol yn dal i fod heb eu penderfynu gan Lywodraeth y DU. Mae angen datrys y materion hyn cyn y gallwn ni gyflwyno deddfwriaeth dda sy'n glir, yn hygyrch ac a fydd yn sefyll prawf amser.

Bydd hyn yn trawsnewid cymorth i'r sector amaethyddol – rwyf eisiau gwneud y Bil hwn unwaith a'i wneud yn dda.

Rwy'n credu nawr mai'r peth gorau i'w wneud yw cyflwyno'r Bil yn y tymor nesaf. I'n helpu ni i'w wneud yn iawn, mae ymgynghoriad pellach, 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir', ar waith, yn amlinellu cynnig manylach ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac rydym yn cynnig cyflwyno Papur Gwyn cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

Hyd nes y bydd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei ymestyn trwy Fil Pysgodfeydd y DU, byddai'n annoeth cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru, a fyddai ond yn gallu gwneud darpariaethau sy'n berthnasol i ddyfroedd mewndirol Cymru, tra bod ein cyfrifoldebau rheoli pysgodfeydd yn ymestyn i'n dyfroedd môr mawr. Mae'r amseru ar gyfer ei gyflwyno yn dibynnu ar weithredu Bil Pysgodfeydd y DU, felly ni allwn wneud unrhyw ddatganiadau clir ar amseru ar hyn o bryd, o ystyried y sefyllfa yn Senedd y DU. Fodd bynnag, rydym yn dal yn bwriadu cyflwyno Papur Gwyn ar gyfer Bil Pysgodfeydd Cymru erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

Ar lefel strategol, mae'r uwch dîm rheoli wedi gwneud popeth o fewn ei allu i ailflaenoriaethu gwaith neu fynd ati i gyflawni'r gwaith mewn ffyrdd gwahanol er mwyn lleihau'r effaith ar gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, yn ddiweddar rydym wedi symleiddio'r broses o gynghori Gweinidogion er mwyn lleihau biwrocratiaeth ddiangen a chanolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau.

Rwyf wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Prydain i amlinellu ein blaenoriaethau o ran ymyriadau ariannol y bydd eu hangen i liniaru effaith drychinebus ymadael â'r UE heb gytundeb. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i Lywodraeth y DU gynllunio ar gyfer ymateb ariannol priodol i ymadael â'r UE heb gytundeb, a ddylai gynyddu cyllid y gwasanaethau cyhoeddus allweddol y mae pobl ddifreintiedig yn dibynnu arnynt; cynyddu budd-daliadau i grwpiau difreintiedig, ac, yn arbennig, mynd i'r afael â'r bwloch sy'n agor rhwng budd-daliadau tai a gwerthoedd rhent go iawn; a chynnwys amrywiaeth o doriadau treth er lles aelwydydd difreintiedig, a all gynnwys gostyngiad mewn TAW a threth tanwydd i liniaru'r cynnydd mewn prisiau, a gostyngiadau dethol mewn treth incwm ar gyfer pobl ar gyflog is.

Rydym wedi ei gwneud hi'n glir hefyd, yn seiliedig ar ragdybiaethau chwyddiant y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn ei "phrawf straen" mewn perthynas â Brexit, ein bod yn rhagweld cynnydd sylweddol ar unwaith yng nghost darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac y byddai angen i'n cyllid ni gynyddu yn unol â hynny.

Rydym wedi dadlau hefyd o blaid cynnydd yn y cyllid cyfalaf i gyflwyno'r buddsoddiad mewn seilwaith a fydd yn cefnogi twf cynhyrchiant i'r dyfodol, ar gyfer cyllid canlyniadol Barnett

unrhyw gynnydd mewn cyllid ar gyfer prosiectau mewn ardaloedd datganoledig yn Lloegr yn unol â'r broses arferol.

Wrth gwrs, byddai ymadael â'r UE heb gytundeb yn ergyd i fusnesau hefyd, gyda tharfu ar gadwyni cyflenwi, chwyddiant a chostau gwerthu ychwanegol yn golygu y bydd rhai mentrau proffidiol yn mynd i drafferthion. Mae economi Cymru yn agored iawn i niwed o ran gweithgynhyrchu ac mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod anodd, gyda phenderfyniadau i gau neu adleoli cwmnïau yn y sector cerbydau yn effeithio ar gymunedau a oedd eisoes mewn sefyllfa eithaf bregus. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU sicrhau bod cyllid sylweddol ar gael i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau a fydd mewn angen o ganlyniad i ymadael heb gytundeb.

Bydd angen cyllid ychwanegol hefyd ar gyfer amrywiaeth o gamau penodol rydym wedi'u nodi i baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb, ac i liniaru effeithiau hynny, ac rydym yn gofyn i Lywodraeth y DU ariannu mesurau parodrwydd rydym wedi'u cymryd yn barod a'r rhai y bydd angen i ni eu cymryd os byddwn yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi £200 miliwn mewn camau lliniaru, sy'n fwy o lawer na'r cyllid canlyniadol a dderbyniwyd hyd yma trwy gyllid parodrwydd Llywodraeth y DU. Fel y dywedodd y Gweinidog Iechyd ddydd Mawrth, mae'r arian yn cael ei ddargyfeirio o ddibenion eraill: fel yr esboniodd, byddai costau'r warws cyflenwadau meddygol newydd wedi ariannu saith sganiwr MRI.

Nid ydym wedi cael unrhyw sicrwydd hyd yma y bydd Llywodraeth y DU yn darparu'r cyllid ychwanegol angenrheidiol.

Fel yr amlinellais yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae cryn ansicrwydd ariannol o hyd mewn perthynas â chynlluniau'r dyfodol, o ran y cyllid ychwanegol a gawsom yn y Cylch Gwariant ar gyfer 2020-21 ac yn absenoldeb setliad y tu hwnt i hynny.

At ddibenion darparu sicrwydd ariannol i'n rhanddeiliaid a'n partneriaid y flwyddyn nesaf, rhaid i ni gynllunio yn seiliedig ar y ffigurau sydd wedi'u cyhoeddi. Os na fydd y cyllid mae Llywodraeth y Du wedi'i addo yn cael ei wireddu, efallai y gallwn ni liniaru rhai o'r effeithiau hyn trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn sydd ar gael. Fodd bynnag, y gwir yw na fyddem yn gallu lliniaru'r effeithiau hyn yn llawn heb ailagor ein cynlluniau. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Mae ein cais i Lywodraeth y DU wedi bod yn glir ers refferendwm 2016: disodli cyllid yr UE yn llawn a pharchu cymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru wrth bennu sut bydd y cyllid hwn yn cael ei fuddsoddi. Mae cefnogaeth glir i safbwyntiau Llywodraeth Cymru – ar draws y Cynulliad, amrywiaeth eang o bartneriaid ledled Cymru a Grŵp Hollbleidiol Seneddol. Cawsant gefnogaeth hefyd gan Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn ystod dadl mewn Cyfarfod Llawn (11 Mehefin) ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae economi Cymru yn cael ei hysgogi hefyd gan amryw o raglenni llai o faint yr UE, ac rydym yn awyddus i allu parhau i gael mynediad at bartneriaethau a rhwydweithiau Ewropeaidd, megis y rhai a sefydlwyd trwy raglen Cymru-Iwerddon, Horizon 2020, ERASMUS+, Ewrop Greadigol, a'u rhaglenni olynol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi atgyfnerthu ein safbwyntiau ac wedi pwysu am eglurder gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys trwy Gyd-bwyllgor y Gweinidogion, trwy gyfarfodydd pedairochrog y Gweinidog Cyllid a thrwy ohebiaeth.

Ar lefel swyddogion, mae cysylltiad rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y materion hyn, ond nid oes unrhyw eglurder o hyd ynghylch blaenoriaethau Gweinidogion Llywodraeth y DU a sut mae Llywodraeth y DU yn bwriadu dosbarthu

cronfeydd newydd ac ati, sy'n ychwanegu ansicrwydd ac yn bygwth tanseilio'r gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru.

Er gwaethaf y diffyg penderfyniadau gan Weinidogion y DU, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar ddatblygu trefniadau i'r dyfodol ar gyfer Cymru yn seiliedig ar y rhagdybiaeth glir y bydd cyllid yr UE yn cael ei ddisodli'n llawn a bod cyllid rhanbarthol yn fater cwbl ddatganoledig.

Mewn perthynas â'r Cronfeydd Strwythurol, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru ers i'n papur polisi, 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit', gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Mae hyn yn cynnwys ymarfer myfyrio yn gynnar yn 2018 a chyhoeddi crynodeb annibynnol o ganfyddiadau ym mis Gorffennaf 2018.

Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru, a gadeirir gan Huw Irranca-Davies AC, i ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ar drefniadau ar gyfer olyniaeth. Mae'r aelodau'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhai o fyd busnes, llywodraeth leol, sefydliadau academiaidd a'r trydydd sector. Mae'r Grŵp Llywio wedi cyfarfod deirgwaith ers mis Ionawr, a bydd yn cyfarfod eto ar 10 Hydref.


Yn 2020, ein rhagdybiaeth gynllunio ariannol ar gyfer y Polisi Amaethyddol Cyffredin yw y byddwn yn parhau i dderbyn o leiaf €320 miliwn i dalu am Gynllun Taliadau Sylfaenol (BPS) 2020. Rydym hefyd yn bwriadu derbyn €50 miliwn pellach ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig yn 2021. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad maniffesto Llywodraeth y DU i beidio â lleihau cymorth amaethyddol yn ystod tymor y Senedd bresennol yn San Steffan.

Rydym yn pwysu ar Lywodraeth y DU i ddarparu mwy o eglurder mewn perthynas â'r mater hwn. Yn y cylch gwariant ar 4 Medi, ni chadarnhaodd Trysorlys Ei Mawrhydi y gyllideb ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn 2020.

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ar y modd y bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd na'r berthynas economaidd rhwng y ddau yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i delerau unrhyw Gytundeb Ymadael. Bydd datrys y materion hyn yn pennu pa mor hir fydd y DU yn aros mewn gwahanol rannau o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ac, felly, pryd y bydd modd dechrau symud i wahanol drefniadau.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD